## ATODLEN 9

Rheoliad 3(1)

### Sylweddau ychwanegol awdurdodedig

**1.** Y paratoadau ensym a ganlyn sy'n bodloni gofynion Rheoliad (EC) Rhif 1332/2008—

(a) pectinasau, at ddadelfennu pectin;

(b) proteinasau, at ddadelfennu proteinau; ac

(c) amylasau, at ddadelfennu startsh.

**2.** Gelatin bwytadwy.

**3.** Taninau.

**4.** Silica sol.

**5.** Siarcol.

**6.** Nitrogen.

**7.** Bentonit fel clai arsugnol.

**8.** Cynorthwyon hidlo ac asiantau dyddodi sy'n gemegol anadweithiol, gan gynnwys perlit, diatomit wedi ei olchi, seliwlos, polyamid annhoddadwy, polyfinylpolypyrolidon, a pholystyren, sy'n cydymffurfio â Rheoliad 1935/2004.

**9.** Cynorthwyon hidlo dyddodi sy'n gemegol anadweithiol sy'n cydymffurfio â Rheoliad 1935/2004 ac a ddefnyddir i leihau cynnwys limonoid a naringin sudd sitrws heb effeithio'n arwyddocaol ar y gwlcosidau limonoid, yr asid, y siwgrau (gan gynnwys oligosacaridau) neu'r cynnwys mwynol mewn sudd o'r fath.